



Dadansoddwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol
Parhaol 37 awr yr wythnos - Cynllunio Corfforaethol
Y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd, Ffordd William Morgan, Llanelwy LL17 0JG
£23,866 - £26,999 y flwyddyn

Cefnogi'r Dirprwy Reolwr Cynllunio/Rheolwr Cynllunio Corfforaethol i ddarparu fframwaith cynllunio corfforaethol y Gwasanaeth, gan gynnwys cynllunio strategol a lleihau risg. Cefnogi'r gwaith o ddarparu systemau effeithiol i fesur a gwella perfformiad yn erbyn amcanion y gwasanaeth a chefnogi'r ddarpariaeth weithredol. Darparu ymchwil a chynghor dadansoddol a chefnogaeth ar draws y Gwasanaeth a chwrdd â gofynion mewnol ac allanol.

CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS

Mae'r rôl yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth) sgiliau yn yr meysydd canlynol:

Gofynion Hanfodol

- Wedi ennill gradd mewn pwnc perthnasol neu brofiad perthnasol helaeth.
- Sgiliau cynhwysfawr o ran defnyddio technoleg gwybodaeth gan gynnwys Microsoft Excel a Word ac Adroddiadau Crystal.
- Y gallu i ymchwilio i, cynnal ymchwiliad a dehongli pob math o ffynonellau gwybodaeth yn gywir a chytbwys, i gyfarwyddo penderfyniadau.
- Y gallu i reoli amser, gosod blaenoriaethau, cynllunio a threfnu llwyth gwaith i gwrdd ag amserlenni.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar gan gynnwys sgiliau cyflwyno i'r safon sydd yn angenrheidiol i weithio'n effeithiol gyda phersonél y Gwasanaeth.
- Trwydded yrru lawn a chyfredol y DU a'r gallu a'r parodrwydd i deithio oddi mewn i a thu allan i ardal y Gwasanaeth fel bo'r angen.
- Sgiliau cyflwyno rhagorol gyda'r gallu i gyflwyno gwybodaeth i bob math o gynulleidfaoedd gan gynnwys uwch reolwyr.
- Y gallu i werthuso a dehongli canlyniadau ymchwil yn effeithiol.
- Y gallu i gymathu data helaeth i'w drosi i wybodaeth ddefnyddiol, adnabod tueddiadau yn ogystal ag anghysondebau.
- Agwedd frwdfrydig a rhagweithiol a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun.
- Y gallu i gydlynu ac ymgysylltu gydag ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid, hybu a chynnal perthnasau gwaith da.

Cymraeg Lefel 2 – Siarad a Gwranddo (i'w gyflawni cyn ddiwedd y cyfnod prawf – gyda cymorth)– Mynnir eich bod yn gallu; Deall hanfodion sgwrs yn y gweithle. Ymateb i ofynion syml yn ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebiadau syml. Mynegi rhywfaint o'ch barn cyn belled bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, 4ydd o Fehefin 2018.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran Adnoddau Dynol ar
01745 535280 neu drwy anfon e-bost i Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk

*ydyd yn gyflogwr cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn
ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi.*

